**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 6ed Chwefror 2012 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, C Hanks a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Forrest (Prif Gyfrifydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); V Hill (Dadansoddwr Perfformiad); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Teal-Bromley (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau); A Morris (Swyddfa Archwilio Cymru).

Ymddiheuriadau :

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21AIN TACHWEDD 2011

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 YR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU: DOGFEN ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL A THRAFOD

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Tân i roi gwybod i'r Aelodau am y datblygiadau ers cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr 2011.

4.2 Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr, roedd yr Aelodau wedi derbyn adroddiad yn cyfleu meddyliau'r tri Phrif Swyddog Tân ynglŷn â llywodraethau a strwythur yr ATAau yng Nghymru yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'r argymhelliad i gefnogi'r dewis y mae'r Prif Swyddogion Tân yn ei ffafrio, ac awdurdodi Cadeirydd yr Awdurdod i sefydlu "Pwyllgor Materion Cenedlaethol".

4.3 Cafodd cyfarfod rhwng y Gweinidog, Cadeirydd a Phrif Swyddogion Tân pob gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ei gynnal ar 12fed Ionawr, ac roedd y Gweinidog wedi dweud ei fod yn falch o dderbyn yr adroddiad ac wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y gwahanol faterion. Roedd y Gweinidog yn awyddus i sicrhau y byddai arbedion sylweddol yn dod. Cafodd cyfarfod pellach ei gynnal gyda'r Ymgynghorydd Tân ac Achub a Phennaeth Cangen y Gwasanaeth Tân ac Achub ar 24ain Ionawr. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn awr i ddatblygu strwythur a chylch gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

4.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 PEIRIANNAU AG YSGOL AC ESGYNLAWR

5.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i geisio argymhelliad gan yr Aelodau ynglŷn â lleoliad strategol tri pheiriant ag ysgol ac esgynlawr y Gwasanaeth yn y dyfodol. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref 2010, roedd y penderfyniad i beidio â chael peiriant newydd i ddod yn lle'r pedwerydd pan ddaw oes ddefnyddiol hwnnw i ben, wedi cael ei wneud pan gytunwyd i fabwysiadu amser cyrraedd 30 munud ar gyfer y peiriannau drwy Ogledd Cymru. Nawr, gofynnid i'r Aelodau argymell i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth ymhle y dylid lleoli'r tri pheiriant sydd yn weddill.

5.2 Tynnodd y Cyng. P Jeffares sylw at y ffaith mai'r peiriant sydd yn Wrecsam sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf, ac felly teimlai y dylid cadw un yn y fan honno. Teimlai'r Cyng. W P Roberts y dylai'r peiriant sydd yn Llandudno gael ei gadw oherwydd nifer uchel y gwestai sydd yn Llandudno.

5.3 Ar ôl ystyried daearyddiaeth Gogledd Cymru, roedd y Cyng. L W Davies o'r farn fod cadw peiriant Bangor yn bwysig oherwydd Wylfa yn Ynys Môn, a hefyd er mwyn gofalu am yr ardal hyd at Benrhyn Llŷn. Roedd hefyd yn ystyried ei bod yn hanfodol cael peiriant yn Wrecsam oherwydd y boblogaeth ynghyd â'r ardal ddiwydiannol sydd dan ei gofal. Felly, teimlai'r Cyng. Davies fod yn rhaid i'r Aelodau benderfynu rhwng Llandudno a'r Rhyl gan eu bod yn rhannu rhannau o'r un tir, ac oherwydd yr A55, roedd y lleoliadau hyn yn haws eu cyrraedd na rhannau eraill o'r gogledd. Roedd y Cyng. M Thomas yn cytuno y dylai peiriant aros ym Mangor a Wrecsam, a dywedodd y dylai'r trydydd peiriant fod yn Llandudno oherwydd nifer y gwestai sydd yn yr ardal; felly cynigiwyd Bangor, Wrecsam a Llandudno gan y Cyng. M Thomas fel y tri lleoliad.

5.4 Roedd y Cyng. J V Owen o'r farn y dylai'r Aelodau, oherwydd mai hwy a oedd wedi penderfynu newid y safon cyrraedd o 20 munud i 30 munud, adael i'r swyddogion benderfynu ar y lleoliadau gan mai hwy sydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth orau am y sefyllfa.

5.5 Roedd y Cyng. G C Evans yn cytuno â barn y Cyng. Owen, ac ar ôl ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd yn atodiad 1 i'r adroddiad, roedd yn teimlo y dylid cadw'r peiriant yn y Rhyl oherwydd yr ardal ddiwydiannol ar hyd yr arfordir o'r Rhyl i'r Fflint, a bod y Rhyl yn lleoliad mwy canolog. Ar gais y Cyng. M Ll Davies, aeth y PSTC Claydon â'r Aelodau drwy'r wybodaeth oedd yn atodiad 1 i'r adroddiad.

5.6 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod gwestai, llety myfyrwyr, tai amlfeddiannaeth a safleoedd o'r fath yn agored i ddeddfwriaeth lem o ran diogelwch tân a rheoliadau adeiladau a oedd yn golygu bod yn rhaid iddynt ddarparu llwybrau dianc heb gymorth asiant allanol.

5.7 Dywedodd y Clerc y byddai teimlad o golled a theimlad o fwy o perygl ym mha bynnag ardal a fyddai'n colli ei beiriant. Fodd bynnag, dylai'r penderfyniad fod yn seiliedig ar amser ymateb a'r ardaloedd sydd â'r mwyaf o risg; roedd yr Aelodau wedi cael y dystiolaeth i'w cynorthwyo i benderfynu. Hefyd, dywedodd y Clerc ei bod yn bwysig fod esboniad gweithredol o'r dystiolaeth ar gael i'r cyhoedd, ynghyd â lefel y risg a sut y byddai'r risgiau'n cael eu rheoli, a hynny er mwyn iddynt allu deall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad terfynol.

5.8 Gofynnodd y Cyng. T Roberts am gadarnhad y byddai peiriant yn y Rhyl yn gofalu am y rhan fwyaf o'r derbyniadau rhagnodedig (*PDAs*) yn sir Conwy a *vice-versa*. Cadarnhaodd y PSTC Claydon y byddai peiriant yn y Rhyl yn ymorol am Landudno ond nid Dyffryn Conwy, ac y byddai cael peiriant yn Llandudno yn golygu y byddai Rhyl yn dod o fewn y safon 30 munud, ond nid ardaloedd Talacre a Dociau Mostyn.

5.9 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyng. M Thomas ailadrodd ei gais blaenorol i ddiben pleidleisio. Cynigiwyd Bangor, Wrecsam a Llandudno gan y Cyng. M Thomas fel y tri lleoliad. O blaid: 3 (y Cyng. M Thomas, y Cyng. W P Roberts a'r Cyng. G James); yn erbyn: 6.

5.10 Yna, cynigiwyd Bangor, Wrecsam a'r Rhyl gan y Cyng. L W Davies fel y tri lleoliad gan fod y Rhyl yn fwy canolog, a hefyd yn gofalu am boblogaeth ehangach ac ardal fwy ddiwydiannol, yn enwedig i gyfeiriad y Dwyrain. O blaid: 6; yn erbyn 3 (y Cyng. M Thomas, y Cyng. W P Roberts a'r Cyng. G James).

5.11 **PENDERFYNWYD, trwy bleidlais fwyafrifol, argymell i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth, y dylai'r tri pheiriant sydd yn weddill gael eu lleoli ym Mangor, Wrecsam a'r Rhyl.**

6 Y GYLLIDEB REFENIW 2012/13 A'R CYNNYDD TUAG AT GAEL YR ARBEDION ANGENRHEIDIOL

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân i roi cadarnhad mai cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2012/13 fyddai £32 miliwn fel y'i gosodwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod yn Rhagfyr 2011.

6.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn rhan o'r mecanwaith adrodd rheolaidd i'r Panel Gweithredol ynglŷn â'r cynnydd i gael yr arbedion angenrheidiol fel y cyfarwyddwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr 2010. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân mai'r arbedion a oedd yn angenrheidiol yn 2012/13 oedd £815,000, ac y byddai £500,000 o hwnnw'n cael ei arbed trwy gyflwyno system gylchrestru newydd.

6.3 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno system gylchrestru newydd. Roedd cynrychiolwyr Undeb yr FBU a'r swyddogion wedi cydweithio'n dda, gyda'r cyfarfodydd wedi bod yn agored, gonest a realistig. Roedd y cyrff cynrychioliadol wedi ymgynghori â'u haelodau, ac ar ôl derbyn adborth, cytunwyd i ddatblygu system gylchrestru a fydd yn unigryw i Ogledd Cymru, ac yn un a fyddai'n ceisio cysoni anghenion y ddwy ochr.

6.4 Trwy gydol Ionawr 2012, roedd diffoddwyr tân o bob rhan o'r Gwasanaeth wedi derbyn cyflwyniad gan aelod o'r tîm a oedd wedi datblygu'r model, un o gynrychiolwyr Undeb yr FBU ac un o'r uwch reolwyr. Mae cyfarfod ffurfiol yr Undeb i fod i gael ei gynnal yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar Chwefror 6$^{ed}$ 2012 er mwyn symud y mater yn ei flaen gobeithio fel bod y system newydd yn cael ei chyflwyno ar Ebrill 1$^{a}$ 2012.

6.5 Roedd y swyddogion a chynrychiolwyr Undeb yr FBU eisiau cadw cymaint o swyddi ag y bo modd, ac felly roeddent wedi cytuno i weithio ar sail cael 22 yn llai o swyddi. Ni fyddai hyn yn cael yr arbedion angenrheidiol ar ei ben ei hun, a chytunwyd i gyflwyno diwrnodiau hyfforddi penodol a fyddai'n golygu na fyddai'n rhaid i bobl gael hyfforddiant ar eu diwrnodiau rota. Byddai hyn yn arbed £150,000 yn rhagor y flwyddyn mewn taliadau goramser. Mae trafodaethau'n parhau hefyd i weld ffyrdd i golli swyddi yn hytrach na phobl.

6.6 Roedd yr Aelodau'n canmol y swyddogion a chynrychiolwyr Undeb yr FBU am gydweithio cystal.

6.7 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gael yr arbedion ariannol angenrheidiol yn y flwyddyn gyfredol, a'r cadarnhad o'r gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2012/13.**

7 IAWNDAL YN ÔL DISGRESIWN AM DERFYNU CYFLOGAETH YN GYNNAR

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y PSTC Simmons i roi gwybodaeth am y cynnydd wrth ddatblygu polisi wedi ei gytuno'n lleol ar arfer pwerau disgresiwn mewn perthynas â thalu iawndal am derfynu cyflogaeth yn gynnar i ddiffoddwyr tân.

7.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa eu bod, yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2011, wedi cytuno mewn egwyddor i geisio cytundeb lleol i ddefnyddio'r un pŵer disgresiwn i dalu iawndal i weithwyr dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr (CPDT) 1992 a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (CPNDT) 2007 gan ei fod yn cael ei roi i weithwyr sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

7.3 Gallai diffoddwyr tân sy'n gymwys fod yn aelodau o naill ai CPDT, CPNDT neu'n weithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r cyfryw gynlluniau. Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo manylion penodol y Cynllun fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

7.4 Aeth y PSTC Simmons ati i esbonio sail y cyfrifiad ar gyfer y cynllun tâl diswyddo gwell, ac mai'r cyfanswm taladwy fyddai £40,560 i'r rhai sy'n 61 mlwydd oed gydag 20 mlynedd o wasanaeth.

7.5 Gofynnodd y Cyng. M Ll Davies am y ffigwr o £800,000 a oedd yn y papur newydd lleol. Esboniodd y Trysorydd fod yr amcangyfrif o £800,000 sydd ei angen i ariannu'r cynllun yn seiliedig ar 22 o bobl sy'n 61 mlwydd oed gydag 20 mlynedd o wasanaeth. Fodd bynnag, rhagwelid mai unigolion rhwng 50 a 55 mlwydd oed fyddai'n gwneud cais am y cynllun, ac mai cyfanswm y taliad am 20 mlynedd o fewn y categori oedran hwnnw fyddai £36,500.

7.6 Nododd yr Aelodau mai cynllun un taliad diswyddo gwirfoddol fyddai hwn, ac y byddai pob cais yn cael ei farnu yn ôl ei rinwedd ei hun, ac

na fyddai'n gynsail ar gyfer unrhyw bolisi yn y dyfodol. Cadarnhawyd hefyd fod y cyfreithwyr wedi craffu ar Orchymyn Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995, ac wedi cadarnhau nad oedd unrhyw wrthdaro.

7.7 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân mai ar eu cais hwy yr oedd y cynllun tâl diswyddo gwirfoddol yn cael ei ddatblygu, gan fod yr Aelodau eisiau sicrhau bod diffoddwyr tân a oedd yn ystyried terfynu eu cyflogaeth yn gynnar yn cael bargen deg.

7.8 Llongyfarchwyd yr Aelodau gan y swyddogion am y gwaith a wnaed. Dywedodd yr Aelodau eto fod diswyddo yn opsiwn y byddai'n well gan bawb ei osgoi, ond dan yr amgylchiadau hyn roeddent yn ddiolchgar i bawb a oedd yn gweithio ar y mater anodd hwn.

7.9 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynllun tâl diswyddo gwirfoddol y cytunwyd arno yn lleol, gan gynnwys meini prawf penodol y cynllun hwnnw, a hynny ar gyfer gweithwyr sy'n aelodau o CPDT neu CPNDT, neu'r gweithwyr hynny sy'n gymwys i ymuno â'r cyfryw gynlluniau.**

8 MONITRO PERFFORMIAD

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad Monitro Perfformiad gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, ac roedd yn ymdrin â thri chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2011/12. Da oedd nodi bod gwelliant ymhob un o'r meysydd perfformiad.

8.2 Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- 161 yn llai o danau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2010/11
- gostyngiad o 30% yn nifer y tanau simnai – gellid priodoli hyn yn rhannol i dywydd mwynach
- 20 o bobl yn dioddef anafiadau yr oedd angen triniaeth mewn ysbyty ar eu cyfer, o'i gymharu â 35 o bobl yn 2010/11
- 61% o gartrefi a oedd wedi cael tân yn rhai lle'r oedd larwm mwg wedi canu. 14% o gartrefi a oedd wedi cael tân yn rhai lle nad oedd larwm wedi canu, ac mae hyn yn ostyngiad o 2% o'i gymharu â'r llynedd
- y prif reswm nad oedd larymau wedi canu er eu bod wedi eu gosod yn yr eiddo oedd nad oedd y tân yn ddigon agos at y larwm i beri iddo ganu
- parhau i ddisgyn a wnaeth nifer y galwadau ffug yr aethpwyd atynt, 9% yn llai o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2010/11. Diolchodd y Cyng. M Ll Davies i staff yr Ystafell Reoli am barhau i herio galwadau ffug.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd.**

9 FFRAMWAITH CENEDLAETHOL TÂN AC ACHUB O 2012 YMLAEN

9.1 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub newydd sydd yn yr arfaeth o 2012 ymlaen. Mae'r ddogfen yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes, ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o lywodraeth leol, a'r modd y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn gyson â pholisi'r llywodraeth.

9.2 Tynnwyd sylw at ddau fater fel "materion cyfredol" – y safonau ymateb i danau mewn cartrefi a datblygu cynlluniau integredig sengl trwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol. Nid ymdriniwyd yn fanwl â'r materion hyn yn y ddogfen oherwydd amseriad yr ymgynghoriad.

9.3 Nododd yr Aelodau hefyd fod y fframwaith yn rhestru'r tri chanlyniad y mae LIC yn disgwyl i'r ATAau eu cael:

- gostyngiad pellach yn nifer yr achosion o danau, marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân, a'r gost/effaith i'r economi a'r gymdeithas oherwydd y rheini;
- gostyngiad pellach yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffyrdd;
- cydnabyddiaeth gan bartneriaid (gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd) a'r gymuned eu bod yn rhanddeiliaid allweddol sy'n cael gwelliannau ehangach i newidiadau amgylcheddol a chymdeithasol.

9.4 Rhestrwyd chwe blaenoriaeth yn ymwneud â chydweithio, gwell effeithlonrwydd, rhannu gwasanaethau, adolygu partneriaethau, cynnal lefelau gwasanaeth, rheoli perfformiad ac adnabod ffyrdd newydd ac arloesol o weithio gan ddefnyddio doniau ac arbenigedd o fewn yr ATAau.

9.5 Nododd y Clerc fod adolygiad o gydweithio a gwaith mewn partneriaeth eisoes wedi cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru. Roedd y Clerc hefyd yn ei hystyried yn bwysig nad oedd y fframwaith yn peryglu amcanion y Gwasanaeth. Dywedodd y Trysorydd fod yr Awdurdod eisoes yn gweithredu nifer o wasanaethau ar y cyd, a bod y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd, gwasanaethau eiddo, gwasanaethau ariannol a gwasanaethau'r clerc oll yn enghreifftiau o weithio ar y cyd.

9.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd, ar y cyd â'r Prif Swyddog Tân, gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod.**

10 YR ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

10.1 Daeth Alan Morris o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n asesu pa

mor dda y mae'r Awdurdod yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu ei wasanaethau.

10.2 Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad ar y cyfan fod gan yr Awdurdod drefniadau da yn eu lle ar gyfer cyflwyno gwelliannau, roedd y gyllideb yn parhau i gael ei rheoli'n dda, ac roedd yr Awdurdod wedi cyfathrebu â grwpiau allweddol er mwyn targedu'r rhai sydd â'r mwyaf o angen cael Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref.

10.3 Esboniodd Alan Morris y gellid gwella'r modd y mae'r Awdurdod yn cynllunio, gwerthuso ac yn adrodd am berfformiad trwy fod yn fwy cytbwys a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd cynlluniau yn eu lle i Swyddfa Archwilio Cymru weithio gyda'r ATA i gynorthwyo gyda'r mater hwn.

10.4 Gofynnodd y Cyng. James sut y gallai'r Awdurdod wneud rhagor i ostwng nifer y damweiniau beiciau modur pan nad oedd hyn yn un o ddyletswyddau statudol yr Awdurdod. Esboniodd y Prif Swyddog Tân y byddai'r swyddogion yn cyfarfod â chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru i drafod y mater ymhellach er mwyn cael gwell dealltwriaeth ar y ddwy ochr. Cydnabuwyd bod cyfraniad y Gwasanaeth i ddamweiniau ar y ffyrdd sy'n ymwneud â cheir/lorïau yn hunan-amlwg, h.y. defnyddio technegau rhyddhau sy'n gallu cael effaith ar allu dioddefwyr i oroesi. Fodd bynnag, gyda damweiniau beiciau modur, nid oes angen rhyddhau, ac felly mae'n anodd gweld sut y gallai'r cynnydd/gostyngiad yn nifer y damweiniau beiciau modur fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau tân ac achub. Roedd y Cyng. M Thomas yn cytuno, a dywedodd na ddylai fod yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod ddysgu pobl sut i yrru beiciau modur. Roedd y Cyng. Thomas hefyd yn bryderus fod llawer o'r beicwyr modur yn dod o'r tu allan i ardal Gogledd Cymru ar ôl gweld erthyglau mewn cylchgronau beiciau modur yn hyrwyddo gwahanol ffyrdd yn yr ardal.

10.5 Nodwyd bod y geiriad ar dudalen 18 angen ei newid, ail bwynt bwled – 12 swydd oedd yn cael eu terfynu, nid 12 peiriant ysgol ac esgynlawr.

10.6 **PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Gwella Blynyddol a'r wybodaeth a drafodwyd yn y cyfarfod.**

**RHAN II**

11 Y CYNNIG I BRYNU ADEILAD PENCADLYS Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB

11.1 Cafodd yr Aelodau fanylion cynnig yn ymwneud â'r posibilrwydd o brynu adeilad pencadlys y Gwasanaeth.

11.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y bydd y brydles ar yr adeilad yn dod i ben yn 2015, a bod arfarniad o fuddsoddiad wedi cael ei wneud er mwyn gallu cymharu'r opsiynau sydd ar gael er mwyn gweld pa ddull yw'r mwyaf cost-effeithiol i GTAGC barhau i ddefnyddio'r adeilad.

11.3 Canlyniad yr arfarniad oedd y byddai prynu'r adeilad yn golygu gwell gwerth am arian na'r opsiwn o rentu. Mae hyn oherwydd y ffaith mai'r Awdurdod fyddai'n berchen ar yr ased ar ddiwedd y 25 mlynedd, ac felly byddai'n rhan o'r arfarniad o fuddsoddiad yn wahanol i'r opsiwn o rentu pan na fyddai ased ar ddiwedd y cyfnod. Nodwyd mai'r Awdurdod sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am gostau cynnal a chadw'r adeilad.

11.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodwyd manylion y dewis sy'n cael ei ffafrio fel yr amlinellir yn yr adroddiad;**

**(ii) cefnogi'r cynnig i symud ymlaen i brynu adeilad y pencadlys, yn amodol ar brisiad gan Brisiwr Siartredig.**